Eisteddfod LLANLLYFNI

6:30pm, Nos Wener, 10 Chwefror, 2023

Neuadd Goffa Llanllyfni

BEIRNIAID:
Cerdd: Ilid Anne Jones, Bangor
Llefaru: Judith Humphreys, Penygroes
Llenyddiaeth: Jerry Hunter, Penygroes

CYFEILYDD: Angharad Wyn Jones, Y Groeslon (07581230908)

MYNEDIAD: Oedolion £3.00 Plant 50c

CYNHELIR YR EISTEDDFOD OED CYNRADD (CYFYNGEDIG I BLANT YSGOL LLANLLYFNI)
NOS IAU 16 CHWEFROR AM 6.00pm

Rhoddir rhodd o £50 i berfformiwr ifanc mwyaf addawol yr Eisteddfod
Rhoddir y nawdd hwn gan
GAREJ ARWYN'S GARAGE CYF.
PENYGROES

AELOD O GYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

CERDD

1. **UNAWD DAN 15 OED**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £12; 2il £8; 3ydd £6
Noddir y gystadleuaeth hon gan
Sioned a Neil Perkins, Llanllyfni

2. **UNAWD CERDD DANT DAN 15 OED**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £12; 2il £8; 3ydd £6

3. **UNAWD ALAW WERIN DAN 15 OED**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £12; 2il £8; 3ydd £6

4. **UNAWD 15 - 21 OED**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £25 *a chwpan i'w chadw am flwyddyn*; 2il £15; 3ydd £10
Y gwpan a'r gwobrau ariannol gan
Meic Roberts, Llun mewn Ffrâm, Penygroes

5. **UNAWD GYMRAEG**
Unrhyw ddarn safonol gan gyfansoddwr o Gymru
Gwobrau: 1af £25; 2il £15; 3ydd £10
Noddir y gystadleuaeth hon gan
Delyth a Twm Elias, Nebo

6. **PRIF UNAWD**
Unrhyw ddarn safonol
Gwobrau: 1af £25; 2il £15; 3ydd £10
Noddir y gystadleuaeth hon gan
Modurdy H.G Jones, Penygroes

7. **CÂN ALLAN O SIOE GERDD**
I'w chanu yn Gymraeg
Gwobrau: 1af £25 *a thlws* ***Sain***; 2il £15; 3ydd £10; 4ydd £5
Noddir y gystadleuaeth hon gan **Sain**

8. **UNAWD ALAW WERIN DROS 15 OED**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £25; 2il £15; 3ydd £10
Noddir y gystadleuaeth hon gan
Mrs Megan Roberts, Llanllyfni

9. **UNAWD CERDD DANT DROS 15 OED**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £25; 2il £15; 3ydd £10

10. **CANU EMYN dros 50 oed**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £12; 2il £8; 3ydd £6

11. **DEUAWD/TRIAWD/PEDWARAWD**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £20; 2il £10; 3ydd £8

12. **PARTI HEB FOD YN FWY NA 12 MEWN NIFER**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £50; 2il £25

13. **CÔR**
Unrhyw ddau ddarn safonol
Gwobrau: 1af £125; 2il £100; 3ydd £75

Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2022-23:

Unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno dau ddarn cyferbyniol heb fod yn hwy na 8 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro.

Bydd cystadlu mewn 2 eisteddfod leol rhwng Mai 2022 a Mai 2023 yn rhoi'r hawl iddynt gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023.

Amodau llawn ar www.steddfota.cymru

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

CYFANSODDI

1. Cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd. Gofynnwn i'r gwaith gael ei gyflwyno, os oes modd, ar CD neu drwy ddull electronig.
Gwobrau: £50 i'w rannu
Y wobr yn rhoddedig gan
Heulwen a Cris Jones, Llanllyfni

OFFERYNNOL

1. **UNAWD OFFERYNNOL**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £12; 2il £8; 3ydd £6

2. **ENSEMBLE OFFERYNNOL**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £25; 2il £15

LLEFARU

1. **DAN 15 OED**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £12; 2il £8; 3ydd £6
Noddir y gystadleuaeth hon gan
Bryn a Lowri Griffith, Llanllyfni

2. **15 - 21 OED**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £25; 2il £15; 3ydd £10

3. **Y PRIF ADRODDIAD**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £25; 2il £15; 3ydd £10

4. **LLEFARU DARN O'R YSGRYTHUR**
Hunanddewisiad
Gwobrau: 1af £15; 2il £12; 3ydd £8

5. **PERFFORMIO DARN DIGRI**
Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru Awst 2022 - Gorffennaf 2023
Oed: Agored
Gwobrau: 1af £25; 2il £15
Gellir dewis barddoniaeth neu ryddiaith sydd eisoes wedi'i gyhoeddi neu gellir cyflwyno darn gwreiddiol. Perfformiad hyd at 4 munud.

Bydd ennill gwobr (1af, 2il neu 3ydd) mewn 2 eisteddfod leol rhwng Awst 2022 a Gorffennaf 2023 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 am wobrau o £100, £60 a £40.

*** Rhaid cydymffurfio â holl amodau'r gystadleuaeth sydd i'w gweld ar www.steddfota.cymru*

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

LLENYDDIAETH

1. **RHYDDIAITH Bl.7, 8 a 9**
Dilyn testunau'r Urdd
Gwobrau: £20 i'w rannu

2. **BARDDONIAETH Bl.7, 8 a 9**
Dilyn testunau'r Urdd
Gwobrau: £20 i'w rannu

3. **RHYDDIAITH Bl.10 - 13**
Dilyn testunau'r Urdd
Gwobrau: £20 i'w rannu

4. **BARDDONIAETH Bl.10 - 13**
Dilyn testunau'r Urdd
Gwobrau: £20 i'w rannu

5. **RHYDDIAITH dan 25 oed**
Unrhyw destun
Gwobrau: £20 i'w rannu

6. **BARDDONIAETH dan 25 oed**
Unrhyw destun
Gwobrau: £20 i'w rannu

Cyflwynir cadair fechan ac £20 i awdur y cynnyrch gorau, ym marn y beirniad, yng nghystadlaethau 1 - 6

7. **ENGLYN**
Pêl-droediwr
Gwobrau: £20 i'w rannu

8. **ENGLYN CRAFOG**
Pont Menai
Gwobrau: £20 i'w rannu

9. **TELYNEG**
Nos a Dydd
Gwobrau: £20 i'w rannu

10. **GORFFEN LIMRIG**
Wrth aredig un dydd ar ei dractor
Daeth Gwyn ar ei ben ar draws trysor
Gwobr: £5

11. **CYSTADLEUAETH Y DYSGWYR**
Erthygl fer i bapur bro
Gwobrau: £20 i'w rannu
Y wobr yn rhoddedig gan
Jên Huws, Llanllyfni

12. **STORI FER**
Ar lan y môr
Gwobrau: £25 i'w rannu

13. **CERDD GAETH NEU RYDD**
Lleisiau
Gwobrau: £25 i'w rannu

Cyflwynir cadair fechan a gwobr o £50 i'r cynnyrch gorau, ym marn y beirniad, yng nghystadlaethau 12 a 13.

Rhoddir y wobr ariannol gan
Laurina a Myrddin Hughes, Penygroes

AMODAU

1. Dylai'r holl waith Llên a gwaith y gystadleuaeth Cyfansoddi fod yn llaw'r ysgrifennydd erbyn **23 Ionawr, 2023**.
2. Dylai pob ymgeisydd yn yr adran lenyddol gyflwyno eu gwaith dan ffugenw, gydag amlen gaeëdig yn cynnwys priod enw a chyfeiriad yr ymgeisydd. Dychwelir cyfansoddiadau llenyddol dim ond os darperir amlen gyda chyfeiriad a stamp.
3. Mae hawl gan y beirniaid i atal neu rannu neu ad-drefnu gwobrau. Cedwir yr hawl i ostwng gwobrau oni fydd mwy nag un yn cystadlu.
4. Cedwir yr hawl i gyhoeddi cyfansoddiadau buddugol.
5. Ni chaniateir cystadlu ar yr un darn mewn gwahanol gystadlaethau.
6. Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu copi ar gyfer y beirniad a'r cyfeilydd.
7. Ni chaniateir cystadlu ond yn y Gymraeg, ag eithrio'r brif unawd.
8. Rhaid defnyddio cyfeilydd swyddogol yr eisteddfod ar gyfer pob cystadleuaeth yn yr adran gerdd, ag eithrio cystadlaethau rhif 12 a 13. **GOFYNNWN YN GAREDIG** i gystadleuwyr, yn enwedig yng nghystadleuaeth 4, 5, 6 a 7 anfon copi o'u cyfeiliant at yr ysgrifennydd o leiaf wythnos cyn yr eisteddfod fel y gall ei anfon ymlaen at gyfeilydd swyddogol yr eisteddfod. Neu mae croeso i gystadleuwyr gysylltu'n uniongyrchol â'r cyfeilydd ar **07581230908.**
9. Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain na cholled a all ddigwydd mewn cysylltiad â'r eisteddfod.

SWYDDOGION Y PWYLLGOR

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:

Lowri W Griffith, Plas, Felingerrig, Llanllyfni, Caernarfon, Gwynedd LL54 6DD
01286 880291 / 07584854730
llanllyfni@steddfota.org / brynalowri@hotmail.com

TRYSORYDD: Cris Jones

IS-DRYSORYDD: Wendy Terschowetz

TREFNYDD NAWDD: Delyth Elias

ARWEINYDDION: Alma Davies, Delyth Elias, Alun Ffred Jones

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniadau'r cyrff, y cwmnïau a'r unigolion isod at yr Eisteddfod:

Cronfa'r Degwm - Cyngor Sir Gwynedd • Cronfa Ewyllys William Park Jones • Cymen Cyf • Cyfreithwyr Lloyd Evans & Hughes • Cyngor Cymuned Llanllyfni • Ewyllys Anti Ses • Fferyllfa Penygroes • Gwinllan Pant Du, Penygroes • Jess Terschowetz • Roberts & Owen, Trefnwyr Angladdau, Penygroes • Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Diolch hefyd i'r rhai sydd wedi noddi cystadlaethau unigol ac a enwir o dan y cystadlaethau hynny yn y rhaglen.